Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Lletygarwch, twristiaeth a manwerthu
Astudiaethau achos

Fel rhan o ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i letygarwch, twristiaeth a manwerthu, casglodd y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion safbwyntiau gan bobl sy'n gweithio yn y sectorau hynny.

## 1. Ymgysylltu

**1.** Cynhaliodd y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion arolwg ar-lein yn edrych ar y materion y mae pobl sy'n gweithio yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu ar draws Cymru yn eu hwynebu. Gofynnwyd cwestiynau i'r ymatebwyr ar y pum thema a ganlyn:

- Manteision gweithio yn y sector;
- Amodau gwaith a sicrwydd swydd;
- Tâl;
- Iechyd a llesiant;
- Cynrychiolaeth gweithwyr.

**2.** Hyrwyddodd y Gwasanaeth Cyfathrebu yr arolwg yn eang ar draws yr holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gydag ymgyrch hysbysebu wedi'i thargedu a barhaodd am dair wythnos. Cliciodd 1,184 o bobl ar y linc i'r arolwg ond dim ond 13 o bobl a lenwodd yr arolwg.

**3.** Yna ceisiodd y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddatblygu ac ehangu'r 13 o ymatebion yn dystiolaeth a fyddai'n cefnogi ymchwiliad y Pwyllgor ac yn cyflawni'r amcan, sef clywed gan bobl sy'n gweithio yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu. O ganlyniad, mae'r papur hwn yn cynnwys 13 o astudiaethau achos dienw o bobl sy'n gweithio yn y tri sector.

### Cyfranogwyr

**4.** Daeth y cyfranogwyr o bob rhan o Gymru, gan gynnwys Blaenau Gwent, Caerdydd, Ceredigion, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.

**5.** Mae chwe chyfranogwr yn gweithio yn y sector lletygarwch ar hyn o bryd, pedwar yn y sector twristiaeth, a thri yn y sector manwerthu.

**6.** Roedd y cyfranogwyr rhwng 16 a 65 oed.

# 2. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

### Crynodeb o'r prif themâu

Mae'r cyfranogwyr yn hoffi gweithio yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu gan ei fod yn eu galluogi i weithio yn eu cymuned leol, yn rhoi hyblygrwydd i'w bywyd, ac yn cynnig amgylchedd cymdeithasol. Fodd bynnag, nododd y cyfranogwyr y canlynol fel y prif rwystrau i weithio ar draws y sectorau:

- Tâl isel a'r cynnydd yn y costau byw.
- Tâl nad yw'n adlewyrchu'r llwyth gwaith.
- Pwysau ar y llwythi gwaith oherwydd diffyg staff.
- Diogelwch gweithwyr yn ystod y pandemig.
- Diffyg trefniadau contract sicr.
- Gweithwyr ddim yn cael eu clywed a neb yn gwrando arnyn nhw.

# 3. Astudiaethau achos

## Astudiaethau achos o'r sector lletygarwch

### **1.** Menyw o Gaerdydd

Mae lletygarwch yn sector da i weithio ynddo a dw i'n mwynhau'r gwaith. Mae gen i gyflogwr da hefyd sy'n rhoi llawer o gyfleoedd hyfforddi i ni. Mae'n gwneud gwahaniaeth i faint rydych chi'n hoffi'ch swydd os oes gyrfa i'w gweld yno.

Dyw pob cyflogwr ddim yr un peth, dyw llawer ddim yn buddsoddi llawer yn eu gweithwyr, a dydyn nhw ddim yn cynnig hyfforddiant nac yn datblygu eu sgiliau. O ychwanegu hynny at oriau afreolaidd a dim llawer o dâl am y gwaith, mae'n gallu bod yn anodd cynnal awydd i aros yn y swydd. Y peth anoddaf i mi yw sut mae'r oriau'n effeithio ar fy mywyd y tu mas i'r gwaith. Mae'n anodd cael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith oherwydd oriau afreolaidd iawn.

Mae pethau mor ddrud nawr ac mae'r costau byw'n cynyddu, ond mae ein tâl mor isel dyw e ddim yn ddigon i dalu am y cynnydd yn y prisiau ym mhobman arall.

Problem fawr ar hyn o bryd yw'r pwysau rydych chi'n teimlo ar sifft pan does dim digon o staff gyda chi. Os yw un person yn sâl neu os does dim digon o bobl ar gyfer sifft, byddwch chi'n gwneud llwythi gwaith dau neu dri o bobl yn y pen draw.

Dw i'n teimlo does dim byd galla' i wneud am y peth, dw i ddim yn gwybod sut i drafod problem, does dim cynrychiolaeth undeb lle dw i'n gweithio. Fyddwn i ddim yn gwybod lle i ddechrau i gael help.

### **2.**Menyw o Gaerdydd

Mae gweithio yn y sector lletygarwch wir yn addas i fi. Mae'r hyblygrwydd yn gyffredinol yn fy ngalluogi i weithio o amgylch agweddau eraill ar fy mywyd. Mae hefyd yn golygu fy mod i'n gallu gweithio yn fy nghymuned leol, ar gyfer cymaint o swyddi mae angen cymudo neu symud, ond dw i'n gallu aros a gweithio yn y gymuned lle ces i fy magu.

Yn bendant mae lle i wella amodau gwaith, mae rheolaeth wael yn broblem gyffredinol a dweud y gwir, does gan y rheolwyr ddim digon o barch nac ystyriaeth ar gyfer llesiant y staff, maen nhw'n poeni fwy am sicrhau bod rhywun yn gweithio'r sifft na'r person sy'n gwneud y sifft. Dydych chi byth wir yn teimlo'n sicr yn eich swydd, ac rydych chi'n teimlo byddai'n hawdd iddyn nhw gael gwared arnoch chi. Does neb yn gwrando ar y staff mewn gwirionedd os oes problem

gyda ni sy'n ymwneud â gwaith. A dyw'r gweithwyr iau ddim yn cael eu trin yn deg o gwbl, mae'n hawdd i'r rheolwyr gamfanteisio arnyn nhw.

Mae tâl hefyd yn broblem, mae'n isel iawn ar gyfer y gwaith ac oriau'r gwaith. A chyda'r cynnydd yn y costau byw, mae ein tâl yn edrych yn llai fyth. Dyw'r isafswm cyflog ddim yn gyflog byw!

Mae pwysau ar y llwythi gwaith oherwydd diffyg staff yn achosi llawer o broblemau iechyd sy'n ymwneud â gwaith, mae'n achosi llawer o straen. Ond wedyn does dim cymorth llesiant gan y cyflogwr, a phan gewch chi sarhad gan gwsmeriaid ar ben hynny, rydych chi yn mynd yn isel.

## 3. Menyw o Fro Morgannwg

Dw i'n hoffi gweithio yn y sector lletygarwch yn fawr. Dw i'n 58 oed ac mae'n addas ar gyfer fy nghyfnod i mewn bywyd. Dw i'n dwli ar agwedd gymdeithasol y gwaith, sef cael siarad â chwsmeriaid a staff, ac mae'r hyblygrwydd yn gadael i mi wneud pethau eraill yn fy mywyd hefyd.

Dw i yn poeni am y diffyg contractau sicr, yn enwedig gyda chymaint o ansicrwydd economaidd i ddod. Mae'n anodd pan dyw eich contract ddim yn sicr. Mae'r tâl, ar y cyfan, yn anghyson ar draws y sector a dyw hynny ddim yn helpu chwaith. Dyna beth yw fy mhrofiad i, mae gan gyflogwyr gwahanol ddisgwyliadau gwahanol ac maen nhw'n cynnig tâl gwahanol. Efallai y bydd un yn talu'n well ond dyw e ddim yn cynnig oriau cyson iawn, mae'r llall bob amser yn cynnig oriau ond mae'r tâl efallai'n ofnadwy. Ond yn gyffredinol, dyw'r tâl ddim yn adlewyrchu'r llwyth gwaith.

Doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel yn gweithio yn ystod y pandemig, yn enwedig gan fy mod i'n hŷn. Rydych chi'n cael llawer o sarhad gan gwsmeriaid hefyd. Roedd yr amodau gwaith yn ofnadwy.

A dweud y gwir, dydw i ddim yn gwybod beth yw fy hawliau cyflogaeth! Does neb yn gwrando arnom ni, y gweithwyr, beth bynnag. Does dim gwybodaeth am beth i'w wneud os ydych chi eisiau rhoi gwybod am broblem. Does neb yn rhoi gwybod am broblemau beth bynnag.

## 4. Gwryw o Gonwy

Dw i'n hoffi gweithio yn y sector lletygarwch, dw i eisiau rhyddid a hyblygrwydd y swydd yn fy mywyd. Mae gen i fy musnes lletygarwch fy hun yn y gymuned lle ces i fy magu, a dw i'n cynnig

cyflogaeth i'r gymuned. Un o brif fanteision gweithio yn y sector lletygarwch yw cwrdd â phobl newydd o bob cefndir.

Fel perchennog busnes, hoffwn i i'r sector lletygarwch ddefnyddio prisiau priodol ar gyfer y gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig, yn hytrach na ras i'r gwaelod, fel bod modd talu cyflogau priodol. Ddylai talu'r isafswm cyflog ddim bod y norm i weithwyr, beth bynnag yw eu hoedran, yn enwedig i weithwyr medrus. Pe baen ni'n codi mwy o dâl, gallen ni dalu mwy. Mae'r tâl yn y sector lletygarwch yn rhy isel a dyw e ddim yn cyd-fynd â'r cynnydd yn y costau byw.

Y rhwystr mwyaf dw i'n ei wynebu wrth ddenu pobl i weithio yn y sector lletygarwch yw statws y sector a barn pobl amdano fe. Pan rydych chi'n cael eich cyflogi yn y sector, rydych chi'n gweld bod eich sgiliau ddim yn cael eu gwerthfawrogi a bod eich cyflog ddim yn adlewyrchu'r gwaith rydych chi'n ei wneud.

Dyw'r cwsmer ddim yn gywir bob amser, ond maen nhw'n meddwl bod TripAdvisor yn rhoi'r hawl iddyn nhw ddinistrio busnesau. Yn fwy nag unrhyw sector arall, mae disgwyl i weithwyr lletygarwch oddef sarhad gan gwsmeriaid.

Ar wahân i godi tâl, gallai'r sector lletygarwch roi mynediad cyflym a hawdd i weithwyr at feddyg teulu a deintydd, cynrychiolaeth undeb well, a dylai ofalu am ei weithwyr iau.

### 5. Menyw o Rondda Cynon Taf

Mae lletygarwch yn cynnig dilyniant gyrfa clir i mi. Dyna un o'r rhesymau dw i'n hoffi gweithio yn y sector. Dw i wedi cael profiad gwaith gwerthfawr drwy'r cyfleoedd sydd wedi codi i fi. Mae'r sector lletygarwch mor brin o staff ar hyn o bryd, felly mae'n hawdd cael dyrchafiad gan does dim llawer o bobl yn mynd am y swyddi.

Dyw'r sector lletygarwch ddim yn cynnig cydbwysedd gwych rhwng bywyd a gwaith. Mae'r sifftiau'n hir ac ar adegau anghymdeithasol. Ond, wedi dweud hynny, mae'r gwaith yn gymdeithasol iawn ac mae'n gallu bod yn dda o ran iechyd meddwl. Dw i'n gallu bod fi fy hun yn y gwaith gyda fy nghydweithwyr.

Yr anfantais i weithio yn y sector lletygarwch yw dyw e ddim yn ddiwydiant gwaith sicr. Dyw'r contractau ddim yn barhaol a dyw'r oriau ddim sicr nac yn rheolaidd. Felly allwch chi ddim dibynnu arno fe a dweud y gwir. Dylai contractau gweddus a theg i weithwyr, ar ôl iddyn nhw gwblhau cyfnod prawf, fod yn orfodol. Mae ein contractau'n annheg iawn. Ar gontractau dim oriau dydych chi ddim bob amser yn cymryd eich gwyliau ac mae'n rhaid eu defnyddio i ategu'ch cyflog. Dw i'n gweithio yn y sector gyda'r cyflogau isaf. Er bod y swydd yn gorfforol

feichus gydag oriau anghymdeithasol, dyw'r tâl a'r cytundebau ddim yn adlewyrchu hynny o gwbl!

Mae'n anodd gwybod sut i godi llais am y problemau yma gan does dim cefnogaeth gyda ni i godi problemau sy'n ymwneud â gwaith a does neb yn gwrando arnon ni. Dw i wedi gweld trais gan gwsmeriaid sarhaus, ond dydych chi ddim yn cael dim cymorth na help.

### 6. Gwryw o Sir Fynwy

Dw i'n hoffi gweithio yn y sector lletygarwch - mae'n gyfle da i mi gamu ymlaen yn fy ngyrfa. Ond does dim hyblygrwydd o gwbl. Mae'r oriau'n gallu bod yn wael iawn. Dw i wedi gweithio 100 o oriau mewn wythnos yn y gorffennol oherwydd diffyg staff a doeddwn i ddim eisiau i'r staff oedd gyda fi weithio hyd at yr asgwrn. I raddau helaeth, dw i'n meddwl bod y diffyg staff yn deillio o'r diffyg gweithwyr mudol - mae bwlch sydd heb ei lenwi.

Mae angen i ni roi trefn ar y tâl os ydyn ni eisiau denu pobl i'r sector lletygarwch. Dyw'r tâl ddim yn adlewyrchu'r llwyth gwaith na'r cynnydd yn y costau byw. Ac, i gadw staff, mae angen i ni ddechrau amddiffyn nhw rhag sarhad gan gwsmeriaid ac effeithiau oriau afreolaidd ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

## Sector twristiaeth

### 7. Gwryw o Geredigion

Dw i eisiau byw yn y gymuned Gymraeg lle ces i fy magu. Dw i'n siarad Cymraeg ac yn mwynhau gweithio yn y sector twristiaeth. Dw i eisiau'r hyblygrwydd a dw i'n hoffi gweithio i fy nghyflogwr. Ond does dim swyddi eraill yn y gymuned a dweud y gwir. Mae angen swyddi gwell yn yr ardal.

Yn y sector twristiaeth, mae ymwelwyr yn cael mwy o lais a llawer mwy o barch na ni, y gweithwyr lleol. Dyw'r rheolwyr ddim yn rhoi llawer o sylw i'r gweithwyr, dim ond yr ymwelwyr. Mae angen gorfodi'r diwydiant i ymladd dros ei staff a gofalu am eu llesiant.

Mae'r tâl yn isel iawn, does dim cystadleuaeth o ddiwydiannau eraill, felly does dim byd yn newid. Hefyd, mae'r costau byw'n cynyddu, ond dyw ein cyflog ni ddim. Heb gyfle go iawn i ni gamu ymlaen yn ein gyrfa, sut allwn ni gael cyflog gwell?

Y rhan anoddaf o'r pandemig oedd y sarhad gan ymwelwyr. Roedd eu barn nhw'n bwysicach na'n barn ni. Dw i ddim yn deall pam allwn ni ddim dweud wrthyn nhw am wisgo mwgwd yn ein

gweithle ni. Doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel yn gweithio yn ystod y pandemig a doeddwn i ddim yn teimlo bod fy nghyflogwr yn fy amddiffyn. Does neb yn gwrando ar staff yn y diwydiant twristiaeth - yr ymwelwyr yw popeth!

### 8. Gwrywod o Sir Ddinbych

Mae twristiaeth yn sector gwych i weithio ynddo fe pan fydd digon o gyllid i'w gefnogi. Gallu gweithio'n lleol, yn fy nghymuned i, ac mewn swydd dw i'n mwynhau yw prif fantais gweithio yn y sector twristiaeth i mi. Rydyn ni'n ymfalchïo mewn gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid, a ddylai fod yn arfer ehangach ar draws y sector.

Fy mhryder mwyaf ar gyfer y sector twristiaeth yw'r toriadau staffio. Rydyn ni wedi cael gwybod bydd ein swyddi amser llawn yn dod i ben ym mis Medi. Mae hynny'n gyfan gwbl oherwydd cyllid. Os yw'r sector twristiaeth yn bwysig i Gymru, dylai gael ei ariannu a'i ddiogelu'n briodol.

Mae angen i ni ystyried hefyd nad yw pob ymwelydd sy'n dod i Gymru'n chwilio am wybodaeth ar-lein, dyw'r syniad yma ddim o fudd. Hefyd, mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gan lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru sydd byth yn cwrdd â'r ymwelwyr ac sydd ddim yn deall eu hanghenion. Mae angen i bobl sy'n gweithio yn y sector twristiaeth gael mwy o lais o ran sut mae'n cael ei gynnal. Roedd Croeso Cymru'n arfer rheoli canolfannau croeso, ond mae'n debyg does dim rheolaeth gyffredinol drostyn nhw nawr. Dylen ni edrych ar y ffordd mae'r Alban yn cynnal y diwydiant twristiaeth yno.

Mae tâl ac amodau gwaith yn bendant yn broblem. Pe bai'r cyngor lleol yn fy nghyflogi'n uniongyrchol, byddwn i'n cael fy nhalu ar ei gyfraddau e, nid yr isafswm cyflog. Dyw hyn ddim yn ymddangos yn deg. Ac mae llawer o anghysondeb gyda thâl ar draws y sector twristiaeth fel mae pethau.

### 9. Menyw o Sir Ddinbych

Dw i'n cael cyfle i weithio yn y gymuned lle ces i fy magu, felly mae gweithio yn y sector twristiaeth yn wych. Dw i'n falch o hyrwyddo'r ardal lle dw i'n byw a rhannu hynny â'r ymwelwyr. Dw i'n hyrwyddo treftadaeth, diwylliant, iaith, a'r amrywiaeth o bethau sydd i'w gweld a'u gwneud. Dw i hefyd yn mwynhau gweithio i fy nghyflogwr, sy'n bwysig.

Dw i wrth fy modd yn gweithio yn y sector twristiaeth, ond dw i'n poeni am sicrwydd fy swydd a'r toriadau staffio, ar y cyd â'r cynnydd yn y llwythi gwaith. Mae angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo twristiaeth fel cyfle i gael gyrfa hyfyw. Hefyd, mae angen cynyddu'r cyflogau, am fod

llawer ohonon ni ar dâl isel, i annog pobl i ddod i'r sector. Yn anffodus, dyw busnesau ddim yn gallu cynyddu cyflog eu staff oherwydd y cynnydd yn y costau mae'n rhaid iddyn nhw eu talu, fel gorbenion, ardrethi busnes, trethi, yswiriant, TAW, ac ati. Pe bai Llywodraeth Cymru yn helpu busnesau twristiaeth gydag ardrethi busnes, trethi, ac ati, gallen nhw gynyddu cyflogau. Dyw ein tâl ddim yn adlewyrchu'r llwyth gwaith, yr ymrwymiad, na'r balchder sydd gyda ni i'n gwaith.

### 10. Menyw o Gasnewydd

Dw i'n mwynhau gweithio yn y sector twristiaeth ac i fy nghyflogwr, ond dyw e ddim yn hawdd i mi gamu ymlaen yn fy ngyrfa. Mae'n broses hirwyntog mewn system gymhleth, felly mae'n anodd cael dyrchafiad, er bod gen i lawer o brofiad o weithio yn y sector twristiaeth ers blynyddoedd lawer.

Dyw'r tâl ddim yn dda, ond rwy'n cael fy nhalu ar gyfradd uwch am weithio ar y penwythnos a gwyliau banc. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth, ond dw i ddim yn meddwl bod pawb yn cael hyn. Mae'n dibynnu ar y cyflogwr a'ch contract, sbo. Ar y cyfan, mae diffyg trefniadau contract sicr i staff.

Rydyn ni ar y graddau tâl isaf - maen nhw mor isel bod rhai pobl â theuluoedd yn cael cymhorthdal incwm hefyd. Mae hynny'n golygu bod y cyflog ddim yn ddigon i fyw arno fe. Mae angen cyflogau gweddus a theg arnon ni, yn enwedig gan fod byw yn mynd yn fwyfwy drud.

Dyw pobl ddim yn sylweddoli pa mor gorfforol feichus mae gwaith yn y sector twristiaeth yn gallu bod. Rydych chi'n sefyll drwy'r dydd, neu mae'r seddi sydd ar gael yn annigonol felly allwch chi ddim eistedd yn iawn. Mae gen i broblemau cyhyrysgerbydol erbyn hyn a dw i'n mynd at ffisiotherapydd i'w datrys ar hyn o bryd. Does neb yn gofalu am eich iechyd - doeddwn i erioed yn teimlo'n ddiogel yn gweithio yn ystod y pandemig.

Dw i'n meddwl bod llawer o'r problemau hyn yn rhai hanesyddol. Does dim cynrychiolaeth gweithwyr gyda ni, felly heb gefnogaeth i godi problemau sy'n ymwneud â gwaith, fyddan nhw byth yn cael eu datrys.

## Sector manwerthu

### 11. Menyw o Flaenau Gwent.

Dw i'n hoffi gweithio yn y sector manwerthu'n fawr. Dw i'n 18 oed, felly mae cael cyfle clir i mi gamu ymlaen yn fy ngyrfa'n bwysig, ac mae gweithio yn y sector manwerthu'n rhoi hynny i mi. Dw i hefyd yn hoffi'r hyblygrwydd yn y sector ac mae fy nghyflogwr yn dda a dw i'n hoffi

gweithio iddo fe, felly dw i'n gallu gweithio'r oriau sy'n addas i mi gyda chyflogwr dw i'n cyd-dynnu ag e. Ond, er fy mod i'n hoffi'r hyblygrwydd o ran oriau, maen nhw'n afreolaidd ac yn ansicr.

Dw i ddim yn meddwl bod y tâl yn deg. Mae'n rhy isel a dyw e ddim yn adlewyrchu'r gwaith. Dyw'r cyflogwyr ddim yn rhoi digon o fuddion i ni chwaith.

Roedd gweithio yn ystod y pandemig yn llawer o straen. Doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel - roeddwn i'n poeni am ddal y feirws gan bobl eraill. Roeddech chi'n cael llawer o sarhad gan gwsmeriaid hefyd, roedd e'n anodd iawn. Mae'n waeth oherwydd does neb yn gwrando ar y gweithwyr. Dw i ddim yn credu y byddwn i'n cael cefnogaeth i godi problem sy'n ymwneud â gwaith. Rydych chi ar eich pen eich hunan.

### 12. Gwryw o Wynedd

Mae gweithio yn y sector manwerthu'n golygu does dim rhaid i mi symud allan o fy nghymuned ar gyfer gwaith. Dw i'n gallu byw yn yr ardal lle ces i fy magu, lle mae fy iaith yn cael ei defnyddio.

Does dim sicrwydd swydd yn y sector manwerthu, mae staff yn cael eu hystyried fel cost sy'n gallu cael ei rheoli, yn debyg i wastraff a stoc yn lleihau. Mae angen cael gwared ar gontractau dim oriau a mynd yn ôl i gontractau rhan-amser ac amser llawn. Mae angen trefniadau contract sicr ar weithwyr. Ond dyw cyfraith cyflogaeth ddim yn gofalu am y gweithiwr, mae'n gwyro i'r cyflogwr. Mae angen ymgynghori â staff fel bod newidiadau'n gweithio iddyn nhw hefyd. Ond, mae undebau manwerthu'n aneffeithiol ac mae'r rheolwyr yn ormesol, felly mae'n anodd i'r staff leisio'u barn.

Mae angen newid pethau fel bod llais gan y staff, fel mynd yn ôl i bwyllgorau gweithwyr neu fforymau gweithwyr annibynnol, er mwyn i ni ddweud ein dweud ar bethau fel cyflogau ac amodau gwaith. Rydyn ni'n colli hanner awr o dâl ar gyfer egwyl i gael pryd o fwyd, ond mae'n amhosibl i ni adael y safle i gael bwyd, ei fwyta a bod yn ôl mewn pryd. Yn gymharol ddiweddar, awr oedd y norm ar gyfer egwyl.

A dweud y gwir, rydyn ni'n cael ein trin fel nwyddau, ac yn rhai sy'n gallu cael eu gwaredu. Dyw cyflogwyr ddim yn ystyried ein hiechyd a'n llesiant. Roedd diogelwch gweithwyr yn ystod y pandemig yn wael iawn. Ddylai neb fod wedi ymddiried yn y cyflogwyr i gynnal yr asesiadau risg. Dylai aseswyr annibynnol fod wedi cynnal y rhain a dylai'r canlyniad fod wedi bod yn gyfreithiol rwymol ar y cyflogwyr. Dylai aseswyr iechyd a diogelwch allanol fod yn norm.

## 13. Menyw o Dorfaen

Dw i'n dwli ar fy swydd a dw i'n dwli ar sut mae'n gwneud i mi deimlo. Dw i wrth fy modd yn gweld cwsmeriaid a siarad â nhw neu eu helpu nhw. Mae fy nghyflogwr yn wych ac mae cyfleoedd go iawn i bobl o bob oed gael profiad gwaith gwerthfawr. Hoffwn i pe bai'r Senedd yn gweld y cyfleoedd sydd ar gael i'r sector manwerthu roi hwb i'r economi!

Dw i ddim yn meddwl bod y sector manwerthu yn ddigon mawr ei barch ac mae ei statws yn eitha' isel. Dw i'n falch o beth dw i'n gwneud, ond hoffwn i pe bai'r Llywodraeth yn teimlo'r un ffordd ac yn buddsoddi mwy yn y sector manwerthu.

Diogelwch gweithwyr yn ystod y pandemig, digri ar y naw! Oherwydd Llywodraeth Cymru roedden ni ar gau. Roedd popeth fel y graig bryd hynny ond, oni bai am y Toriaid yn talu cyflogau fy nheulu, diolch byth, dw i ddim yn gwybod beth fyddai wedi digwydd.

Gweithwyr ddim yn cael eu cynrychioli, eu clywed a does neb yn gwrando arnyn nhw. Dyw undebau'n dda i ddim pan rydych chi'n byw dan unbennaeth Llywodraeth Cymru.

Yr wythnos yma, roedd toriad 20 y cant arall i'n horiau, bydd llawer o bobl yn cael trafferth talu'r costau byw cynyddol gyda thoriad fel hynny i'w horiau. Heb oriau sicr, fydd pobl ddim yn gwybod a fydd digon o incwm gyda nhw. Does dim sicrwydd. Rydyn ni'n gwybod y byddwn ni ar gau erbyn mis Medi. Yn barod does dim digon o staff gyda ni oherwydd salwch. Gyda'r pwysau ar y llwythi gwaith oherwydd diffyg staff, mae'n siŵr bydd pobl yn cymryd amser i ffwrdd yn y pen draw.